

## Y CYNGOR DINAS A SIR CAERDYDD SIR

Cyfarfu'r Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd yn Neuadd y Sir, Caerdydd ar Dydd Iau, 12 Medi 2019 i drafod y busnes a nodir yn y wŷs Cyngor dyddiedig Dydd Gwener, 6 Medi 2019.

Yn

bresennol: Y Cynghorydd Sir De'Ath (Arglwydd Faer)

Cynghorwyr Sir Ahmed, Asghar Ali, Dilwar Ali, Berman, Bowden, Bowen-Thomson, Boyle, Bradbury, Bridgeman, Carter, Cowan, Cunnah, De'Ath, Derbyshire, Driscoll, Ebrahim, Elsmore, Ford, Gibson, Goddard, Goodway, Gordon, Henshaw, Gavin Hill-John, Philippa Hill-John, Hinchey, Hopkins, Hudson, Jacobsen, Jenkins, Jones-Pritchard, Jones, Owen Jones, Joyce, Kelloway, Lancaster, Lay, Lent, Lister, Mackie, McEvoy, McGarry, McKerlich, Merry, Michael, Molik, Morgan, Naughton, Owen, Parkhill, Jackie Parry, Keith Parry, Patel, Dianne Rees, Robson, Sandrey, Sattar, Simmons, Singh, Stubbs, Taylor, Graham Thomas, Huw Thomas, Lynda Thorne, Walker, Weaver, Wild, Williams, Wong a/ac Wood

### 69 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Bale, Burke-Davies a Phillips.

### 70 : DATGAN BUDDIANNAU

Doedd dim datganiadau buddiannau yn y cyfarfod hwn.

### 71 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf 2019 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

### 72 : CWESTIYNAU CYHOEDDUS

Cwestiwn Cyhoeddus – *Yvonne Murphy*

Yr wyf i, ynghyd ag aelodau eraill o'r sector celfyddydau a diwylliannol a phoblogaeth ehangach Caerdydd, yn pryderu ynghylch diffyg profiad posibl o unrhyw gwmni yn y sector busnes preifat a ddewisir yn y dyfodol, a allai arwain at ddirywiad yn ansawdd rhaglenni, ehangder o gynnyg i gynulleidfaoedd ac enw da'r theatr Gaerdydd fawreddog hon.

Felly, hoffwn ofyn i'r Cyngor amlinellu'r broses sy'n cael ei defnyddio i ddewis darparwr rheoli newydd ar gyfer Theatr Newydd Caerdydd. Yn ôl a ddeallaf, ym mis Chwefror 2017, cytunodd y Cyngor ar broses 3 cham i ddod o hyd i ddarparwr rheoli newydd a fyddai'n talu rhent i'r Cyngor ac mai'r cam cyntaf y cytunwyd arno gan y Cyngor oedd sefydlu Ymddiriedolaeth Annibynnol dielw. Yr wyf yn deall hefyd nad yw hyn wedi digwydd.

A all y cyngor gadarnhau a yw'r broses hon o weithredu tri cham yn cael ei dilyn, a yw Ymddiriedolaeth Annibynnol dielw yn cael ei sefydlu a bod proses ddethol drylwyr a thryloyw yn cael ei chynnal?

*Ateb – y Cyngorydd Bradbury*

Yn gyntaf oll, hoffwn eich sicrhau bod y weinyddiaeth hon yn parhau i fod yn ymrwymedig i sicrhau parhad bywiog a llwyddiannus i'r Theatr Newydd ar gyfer trigolion Caerdydd ac ymwelwyr â'r ddinas.

Ar 15<sup>fed</sup> Tachwedd 2018, ystyriodd y Cabinet adroddiad a oedd yn ceisio sicrhau dyfodol adeiladau treftadaeth Caerdydd, a oedd yn cynnwys y Theatr Newydd. Awdurdodwyd swyddogion i archwilio'r posibilrwydd o brydlesu'r adeilad i weithredwr theatr heb gymhorthdal ac i ddychwelyd i gyfarfod o'r Cabinet yn y dyfodol i'w ystyried ymhellach ac i benderfynu'n derfynol ar ganlyniad y broses honno.

Mae'r broses honno yn parhau a disgwylir i'r canlyniad gael ei ystyried gan Bwyllgor Craffu Economi a Diwylliant y Cyngor a gan y Cabinet yn y dyfodol agos.

Oherwydd natur fasnachol y broses hon, ni fyddai'n briodol i mi ragdybio'r canlyniad.

Ym mis Chwefror 2017, roedd y Cabinet blaenorol wedi cytuno i archwilio potensial dull 'nid-er-elw', ond gallaf gadarnhau nad oes unrhyw ymrwymiad wedi'i roi i sefydlu Ymddiriedolaeth Annibynnol dielw nac i ddilyn proses 3 cham.

Bydd penderfyniad yn cael ei wneud dim ond pan fyddwn yn fodlon ein bod wedi profi a sicrhau'r datrysiad gorau ar gyfer cynaliadwyedd yr ased diwylliannol gwerthfawr hwn yn y dyfodol.

*Cwestiwn Atodol – Yvonne Murphy*

Diolch am eich ateb, ond nid yw'n llwyr ateb fy nghwestiwn. Yr wyf wedi gofyn a allwch roi sicrwydd y glynir wrth broses tri cham ac y byddwn, o gofio'r amserlen sydd gennym, yn dymuno cael sicrwydd na fydd y penderfyniad hwn yn cael ei wneud cyn diwedd 2019 ac y gall y Cyngor ddefnyddio'r incwm o'r pantomeim Nadolig a fydd oddeutu £ 350/400,000 i wrthbwysu diffyg y gyllideb gyfredol a pheidio â'i rhoi i sefydliad preifat. Yn amlwg, does dim modd cadw at y broses briodol o broses tri cham erbyn diwedd 2019, a allech chi gadarnhau na fydd hynny'n digwydd?

*Ateb – y Cyngorydd Bradbury*

Yn anffodus, oherwydd natur fasnachol yr ymarfer, ni ellir rhoi'r sicrwydd llawn yr ydych yn ei geisio, ond gallaf eich sicrhau nad ein bwriad yw ceisio rhoi arian i weithredwr theatr, i'r gwrthwyneb yn llwyr. Mae'n ymwneud â sicrhau bod gennym theatr barhaus, ynglŷn â dileu unrhyw gymhorthdal tuag at y Cyngor tra hefyd yn ceisio cynnal y rhaglen theatr gyfredol ac fel rhan na aethom erioed trwy broses 3 cham, cawsom dri cham yng nghynllun mis Chwefror 2017 ynglŷn ag edrych ar opsiwn mewnol gwell, a dyna beth wnaethom. Gwnaethom hynny, y trydydd dewis oedd edrych ar opsiwn nid-er-elw yr ydym wedi tybio na fyddai'n dileu'r risg i Gyngor

o'r Theatr Newydd. Mae hyn oll yn golygu ein bod yn cynnal ansawdd arlwy'r Theatr Newydd ac yn sicrhau bod y Theatr Newydd yn parhau i fod ar agor am flynyddoedd lawer i ddod. Rwy'n ddigon hapus i gwrdd â chi i'w drafod ymhellach unwaith y byddwn mewn sefyllfa i fod yn agored, i ymhelaethu ar rai o'r trafodaethau rydym yn eu cael. Dydw i ddim yn y sefyllfa honno nawr ond rwy'n hapus i drafod gyda chi neu unrhyw ran o'r gymuned gelfyddydol yr hyn rydyn ni'n ceisio ei wneud.

73 : DEISEBAU

Cyflwynwyd y deisebau canlynol:

<b>Cynghorydd</b>	<b>Nifer y llofnodion</b>	<b>Cais</b>
Y Cynghorydd Driscoll	256	Yn galw ar y Cyngor i gyflwyno cynigion ar gyfer Lonydd â Chlwydi yng nghefn 1-137 (odrifau) Fairwater Grove West (ger y rheilffordd); i gynnwys Lonydd â Chlwydi rhwng 2-110 (eilrifau) Fairwater Grove East ac 1-105 (odrifau) Fairwater Grove East yn Rhaglen Waith y Dyfodol; ac i gynnwys Lonydd â Chlwydi rhwng 40-132 (eilrifau) Fairwater Grove East yn Rhaglen Waith y Dyfodol sy'n cefnu ar 17-77 Bishops Close, hyd at gefn 9-11 a 10 Bishops Close (mewn safle i gael eu cytuno â deiliaid y cartrefi hynny gan fod y ffryntiadau wedi cael eu cynnwys yn hwyr yn hyn).
Y Cynghorydd Kelloway	221	Yn galw ar y Cyngor i weithio gyda Bws Caerdydd i ddarparu gwasanaeth bws aml i Gyncoed sy'n addas i'r diben ac sy'n cysylltu â chanolfannau siopa lleol, swyddfeydd post, y Llyfrgell ac Ysbyty Athrofaol Cymru.
Y Cynghorydd Walker	50	Galw ar y Cyngor i beidio â rhoi'r gorau i'w gefnogaeth i'r gwasanaeth bws 801 sy'n mynd â phlant i Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Esgob Llandaf.
Y Cynghorydd Gibson	92	Deisebu'r Cyngor i osod bolardiau ar gornel Hillsnook Road gyda Heol Ddwyreiniol y Bont-faen er mwyn atal problemau parcio sydd yn eu tro yn gwneud y gornel yn beryglus.

74 : CYHOEDDIADAU'R ARGLWYDD FAER

Llongyfarchodd yr Arglwydd Faer yr Arweinydd a'i wraig Charlotte ar ran y Cyngor ar enedigaeith eu mab Daniel Richard Thomas.

Llongyfarchodd yr Arglwydd Faer y Cyngorydd Rhys Taylor a Guto ar eu priodas yng Nghas-gwent ar 20 Gorffennaf 2019.

Hysbysodd yr Arglwydd Faer y Cyngor fod ffurflen noddi yn cael ei dosbarthu o amgylch y Siambr ar ran y Cyngorydd Stubbs a oedd yn rhedeg hanner marathon Caerdydd i godi arian ar gyfer yr NSPCC.

#### 75 : HYSBYSIAD O SWYDD WAG

Hysbyswyd y Cyngor o'r rhybudd o swydd wag ar gyfer Cyngorydd yn Adran Etholiadol yr Eglwys Newydd a Thongwynlais a'r trefniadau ar gyfer etholiad i lenwi'r swydd wag honno.

PENDERFYNWYD – bod y Cyngor wedi nodi'r swydd wag ar gyfer Cyngorydd yn Adran Etholiadol yr Eglwys Newydd a Thongwynlais a'r trefniadau ar gyfer etholiad i lenwi'r swydd wag honno.

#### 76 : ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR ARCHWILIO 2018/19

Roedd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio, Mr Ian Arundale, yn falch o gyflwyno adroddiad blynyddol y Pwyllgor Archwilio ar gyfer 2018/19, a oedd yn nodi trosolwg o'r gwaith a wnaed gan y Pwyllgor dros y 12 mis diwethaf. Tynnodd y Cadeirydd sylw at feysydd o'r adroddiad a'r sylwadau a wnaed gan y Pwyllgor a oedd yn cynnwys:

- Diolchiadau i'r swyddogion a dymuniadau gorau i Christine Salter, a adawodd y Cyngor ar ôl blynyddoedd lawer o wasanaeth cyson a gwerthfawr.
- Meysydd sy'n peri pryder, gan gynnwys rheoli cyllideb, yn enwedig mewn ysgolion a gwasanaethau cymdeithasol.
- Gwytnwch ariannol yn gyffredinol, mynegwyd pryder ynghylch gorwariant sylweddol a thargedau arbedion heb eu gwireddu yn y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Roedd Llywodraethu Ysgolion a chydymffurfiaeth yn faes a oedd yn peri pryder, lle y gallai fod yn rhaid i'r Pwyllgor Archwilio ddwysáu eu cyfranogiad.
- Gellid gweld pryderon mewn rheolaethau mewnol yn gyffredinol a bu bylchau ym meysydd rheoli gwastraff a chydag ysgolion ond yn enwedig Gwasanaethau Masnachol.
- Cynghorodd y Pwyllgor Archwilio fod yn rhaid i'r rheolwyr gynnal systemau rheolaeth fewnol gadarn a nodi meysydd gwendid.
- Roedd seiber-ddiogelwch yn faes arall lle roedd meysydd posibl i'w datblygu.
- Tynnodd y Pwyllgor Archwilio sylw at y rhaglen rheoli perygl erydu arfordirol er mwyn lliniaru'r perygl o lifogydd o'r morlin ar hyd Rover Way.
- Roedd Brexit yn faes yr oedd gan y Pwyllgor Archwilio ddi-ddordeb ynddo, er nad oedd gan y Pwyllgor yr arweiniad i oruchwyllo hyn, y Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad sydd â'r oruchwyliaeth, ond gan fod y Pwyllgor Archwilio wedi cynyddu mater Brexit i risg gorfforaethol, mae mwy o wybodaeth yn cael ei darparu nag o'r blaen.
- Sylwadau allweddol ar gyfer 2018/19 oedd bod y Pwyllgor Archwilio wedi cyflawni trosolwg o flaenoriaethau, risgiau a rheolaethau'r Cyngor trwy lawer o

eitemau a dderbyniwyd trwy ei raglen waith. Barn y Pwyllgor Archwilio ar y dystiolaeth a gyflwynwyd iddo yn ystod y flwyddyn adolygu yw bod gan y Cyngor, ar y cyfan, rheolaeth fewnol a threfniadau llywodraethiant cadarn ar waith ac roedd ardaloedd datblygu wedi'u nodi.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer gwestiynau ar yr adroddiad blynyddol a chodwyd materion ac ymatebwyd iddynt yn y meysydd canlynol:

- Llywodraethiant a chydymffurfiaeth ysgolion, a oedd y Cyngor yn gwneud digon i gefnogi ysgolion i gyflawni dyletswyddau.
- Materion rheoli gwastraff a'r hyn oedd yn cael ei ddatblygu lle'r oedd bylchau wedi eu cydnabod.
- Croesawyd yr hunan-werthusiad ac a oedd pob aelod yn mynychu'r hyfforddiant ac yn ei werthuso.
- Sgiliau ymhlith Llywodraethwyr Ysgol a rhannu modelau a pholisïau.

**PENDERFYNWYD:** Yn amodol ar ddiwygiad i ddarllen "Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi codi pryderon am faterion llywodraethiant a chydymffurfio mewn ysgolion am gryn amser, sy'n gyfrifol yn rheolaidd am gyfradd uwch o adroddiadau archwilio sy'n peri pryder. Eleni, er ein bod wedi derbyn sicrwydd a roddwyd trwy waith archwilio ar thema llywodraethiant ysgolion, rydym yn dal i bryderu nad yw rhai ysgolion wedi cyflawni lefel foddhaol o stiwardiaeth a rheolaeth fewnol." Bod Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio ar gyfer 2018/19 yn cael ei nodi.

**77 : ADRODDIADAU CYDYMFFURFIAETH 2018/19 - DATGANIAD O GYFRIFON, DATGANIAD LLYWODRAETHIANT BLYNYDDOL AC ADRODDIAD BLYNYDDOL RHEOLI'R TRYSORLYS.**

Cynigiodd yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad, y Cynghorydd Weaver y Datganiad Cyfrifon a'r Adroddiad Rheoli Trysorlys Blynyddol, adroddiad statudol a golwg ôl-weithredol ar gyfrifon y flwyddyn ariannol ar gyfer 2018/19.

Diolchodd yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad i'r Pwyllgor Archwilio a Swyddfa Archwilio Cymru am eu gwaith. Trafodwyd dau fater a gohebodd hwy gyda'r rheolwyr, yr effaith gyntaf ar rwymedigaeth y Gronfa Bensiwn o ran dyfarniad cyfreithiol yn effeithio ar y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Cenedlaethol wedi i'r cyfrifon gael eu paratoi a hefyd i geisio diweddariadau ar y trafodaethau parhaus gyda Chyllid a Thollau ei Mawrhydi mewn perthynas â Threth Dirlenwi.

Roedd yr adroddiad yn gofyn i'r Cyngor Llawn i gymeradwyo:

- Datganiad Cyfrifon Archwiliedig 2018/19 – Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd yn ogystal ag Awdurdod Harbwr Caerdydd.
- Datganiad Ariannol 2018/19 - Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg
- Datganiad Llywodraethiant Blynyddol
- i nodi adroddiadau Archwilio Swyddfa Archwilio Cymru ar Ddatganiad Cyfrifon Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd, Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro

Morgannwg, Awdurdod Harbwr Caerdydd ac Awdurdod Iechyd Porthladd Caerdydd am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019

- i nodi Llythron Cynrychiolaeth ar gyfer Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd, Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg ac Awdurdod Harbwr Caerdydd;
- i nodi y caiff dogfennau ffurfiol eu llofnodi ar ddiwedd y cyfarfod.

Eiliodd yr Arweinydd yr adroddiad a'i argymhellion yn ffurfiol a diolchodd i'r Cynghorydd Weaver, swyddogion a staff yn Swyddfa Archwilio Cymru.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer y drafodaeth ar yr eitem pan wnaed y sylwadau a'r arsylwadau canlynol.

Pryderon ynghylch atebolrwydd a'r cynnydd mewn dyled tra bod arian yn lleihau.

Pryderon ynghylch y ffigwr o ddyled y llynedd ynghyd â'r pryderon am y cynnydd yn y ddyled eleni gyda'r ffigwr yn parhau i godi yng Nghaerdydd

Ymatebodd yr Aelod Cabinet i'r holl faterion a godwyd a chroesawodd sylwadau'r Aelodau. Bu'n rhaid newid cyfeiriad er mwyn wynebu heriau ariannol hirdymor wrth i lywodraeth leol gael ei thanariannu. Benthyciodd y Cyngor i fuddsoddi mewn asedau fel ysgolion a ffyrdd. Roedd y Cyngor yn mantoli ei gyllideb bob blwyddyn ac yn ymwybodol iawn o'r hyn a fenthycwyd er mwyn buddsoddi yn y darpariaethau sy'n ofynnol gan bobl Caerdydd.

PENDERFYNWYD: Yn amodol ar ddiwygiad sy'n darllen:

“Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi codi pryderon am faterion llywodraethiant a chydymffurfio mewn ysgolion am gryn amser, sy'n gyfrifol yn rheolaidd am gyfradd uwch o adroddiadau archwilio sy'n peri pryder. Eleni, er ein bod wedi derbyn sicrwydd a roddwyd trwy waith archwilio ar thema llywodraethu ysgolion, rydym yn dal i bryderu nad yw rhai ysgolion wedi cyflawni lefel foddhaol o stiwardiaeth a rheolaeth fewnol.”

- Bod y Datganiad Cyfrifon Archwiliedig 2018/19 – Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd yn ogystal ag Awdurdod Harbwr Caerdydd wedi'u cymeradwyo.
- Bod Datganiad Ariannol 2018/19 - Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg wedi'i gymeradwyo.
- Cymeradwywyd y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol 2018/2019.
- Nodi adroddiadau Archwilio Swyddfa Archwilio Cymru ar Ddatganiad Cyfrifon Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd, Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg, Awdurdod Harbwr Caerdydd ac Awdurdod Iechyd Porthladd Caerdydd am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019;
- Nodi Llythron Cynrychiolaeth ar gyfer Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd, Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg ac Awdurdod Harbwr Caerdydd;

- Nodi y caiff y dogfennau canlynol eu llofnodi'n ffurfiol ar ddiwedd y cyfarfod:
- Datganiad Cyfrifon ar gyfer Cyngor Caerdydd - yr Arglwydd Faer a Chyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau.
  - Datganiad Cyfrifon ar gyfer Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg - yr Arglwydd Faer a Chyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau.
  - Datganiad Cyfrifon ar gyfer Awdurdod Harbwr Caerdydd - Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau
  - Alldro Blyneddol Awdurdod Iechyd Porthladd Caerdydd - yr Arglwydd Faer a Chyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau.
  - Datganiad Llywodraethiant Blyneddol - Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr.
  - Tystigrif Archwilio ar gyfer Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd, Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg ac Awdurdod Harbwr Caerdydd - Archwilydd Penodedig, Swyddfa Archwilio Cymru. I'w llofnodi'n ddiweddarach:
  - Llythyron Cynrychiolaeth ar gyfer Cyngor Sir Dinas a Sir Caerdydd - Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau a'r Arglwydd Faer
  - Llythyr o Gynrychiolaeth ar gyfer Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg - Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau a'r Arglwydd Faer
  - Llythyron Cynrychiolaeth ar gyfer Awdurdod Harbwr Caerdydd - Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau a'r Arglwydd Faer
- I nodi Adroddiad Blyneddol Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2018/19 (Atodlen 9).

## 78 : DATGANIADAU'R ARWEINYDD AC AELODAU'R CABINET

### 1. [Datganiad yr Arweinydd](#)

Ymatebodd yr Arweinydd i gwestiynau a godwyd ynghylch y diweddariad ar Brexit a chynllun Setliad yr UE. Dywedodd yr arweinydd ei fod wedi rhoi ymrwymiad i fod yn bresennol yn y Pwyllgor Archwilio a'i fod yn hapus i fod yn bresennol mewn cyfarfod yn y dyfodol. Cynllun Setliad yr UE a nifer y trigolion yng Nghaerdydd yr effeithiwyd arnynt.

### 2. [Datganiad yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol, Iechyd a Llesiant](#)

Ymatebodd yr Aelod Cabinet i'r cwestiynau ar yr Ŵyl Corff Gweithgar Meddwl Iach 50+ gan egluro bod gŵyl debyg wedi cael ei chynnal yn Llanelwng a bod pob ward yn cael ei harchwilio ar gyfer lleoliadau posibl. Roedd yn hanfodol

cefnogi mudiadau cymunedol gwirfoddol a byddai mwy o fanylion yn cael eu darparu.

3. [Datganiad yr Aelod Cabinet dros Gynllunio Strategol a Thrafnidiaeth](#)

Ymatebodd yr yr Aelod Cabinet i gwestiynau ar Gynlluniau Aer Glân, roedd prif ymateb Llywodraeth Cymru yn gadarnhaol, derbyniwyd y cynllun, ond roedd angen rhagor o wybodaeth. Seilwaith Gwyrdd, roedd dyletswydd newydd yn cael ei rhoi ar awdurdodau lleol ac roedd adroddiad yn dod yn ôl i gyfarfod nesaf y Cabinet. Cafodd cynigion trafndiaeth gyhoeddus eu cynnwys yn safleoedd y CDLI gyda seilwaith yn cael ei ddatblygu. Roedd Peddle Power wedi ymuno ac roedd atgyweirio Nextbikes a newid i dechnoleg y beiciau'n cael ei gynnig. Roedd cysgodfannau bus to gwyrdd yn cael eu hystyried ac roedd 14 arhosfan bus yn yr orsaf fysiau newydd yn ddigonol.

4. [Datganiad yr Aelod Cabinet dros Fuddsoddi a Datblygu](#)

Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau am brojectau mawr yn y ddinas gan gynnwys yr Arena Dan Do sy'n cwrdd â therfyn amser mis Rhagfyr a manteision yr arena, ynghyd â phroject Trafnidiaeth y Metro. Mae'n bosibl y byddai Sgwâr Callaghan yn cael ei ystyried ym mis Tachwedd. Nid oedd unrhyw ddata ar gael ar dwf swyddi ar hyn o bryd ond byddai'r wybodaeth yn cael ei darparu.

5. [Datganiad yr Aelod Cabinet, Diwylliant a Hamdden](#)

Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau ar Barc Cefn Onn. Roedd y Cyngor wedi cymeradwyo Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus a byddai'n monitro'r parc a'i fynediad. Roedd yn hapus i gwrdd â chynghorwyr am yr algâu yn Llyn Parc y Rhath. Diolchodd i bawb a fu'n gysylltiedig â Chwpan Byd y Digartref a sut yr oedd y twrnamaint wedi codi ymwybyddiaeth o ddigartrefedd byd-eang.

6. [Datganiad y Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau](#)

Llongyfarchodd y Dirprwy Arweinydd holl ddisgyblion a staff ar draws Caerdydd am eu canlyniadau arholiadau eithriadol. Roedd y cynllun Gwisg Ysgol yn annog gwerthu neu gyfrannu gwisgoedd ac roedd yn hanfodol bod yr arfer hwn yn cael ei rannu. Roedd llyfrgelloedd hefyd mewn sefyllfa i dderbyn rhoddion.

7. [Datganiad yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad](#)

Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau am gefnogaeth y Cyngor i Pride Cymru. Ap Caerdydd a sut roedd gwybodaeth yn cael ei hadrodd. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn cynnal WITS ond roedd angen rhagor o wybodaeth am achosion penodol. Roedd y system CRM yn rhan o'r rhaglen Newid Ddigidol yn y dyfodol. Darpariaeth ar gyfer Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartref



ledled y ddinas. Pecyn cymorth Llywodraeth Cymru ar gyfer cynllun y Bathodyn Glas. Sut deliodd y Cyngor â'r brotest Extinction Rebellion, er mwyn cadw'r ddinas i symud.

8. [Datganiad yr Aelod Cabinet dros Dai a Chymunedau](#)

Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau am yr hyn a ddysgwyd o ymweliad â Glasgow a Helsinki ac roedd yn hapus i ddarparu gwybodaeth i'r holl Aelodau. Mewn perthynas ag eiddo gwag, roedd yn siomedig bod cynnydd wedi'i adrodd a thrafodwyd hyn yn y Pwyllgor Craffu.

9. [Datganiad yr Aelod Cabinet dros Strydoedd Glân, Ailgyrchu a'r Amgylchedd](#)

Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau ar ddamweiniau ger mynwent Draenen Pen-y-graig a chynigiwyd newidiadau i wneud ardal y ffordd yn fwy diogel. Tipio anghyfreithlon a'r wylidwriaeth sydd mewn lle i gefnogi hyn. Byddai'r Treial Cofrestru mewn tair Hyb yn cael ei gyflwyno i ganolfannau eraill. Roedd tipio anghyfreithlon yn broblem ar draws y ddinas gyfan a byddai camau'n cael eu cymryd pe bai'r rhai sy'n gyfrifol yn cael eu dal.

10. [Datganiad yr Aelod Cabinet dros Blant a Theuluoedd](#)

Ymatebodd yr Aelod Cabinet i gwestiynau yn adrodd i'r Pwyllgor Cyngori Rhianta Corfforaethol am yr ailstrwythuro rheoli yn y Gwasanaethau i Blant gan gynnwys gweithio gyda'r undebau llafur. Roedd gweithio lefel ardal leol yn sicrhau bod staff sy'n gweithio'n gymdeithasol yn agosach at eu partneriaid. Mynychu'r Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc ac adroddodd ar yr ailstrwythuro.

79 : HYSBYSIAD O GYNNIG

Dywedodd yr Arglwydd Faer fod yr hysbysiad o gynnig a gynigiwyd gan y Cyngorydd Joel Williams ac a eiliwyd gan y Cyngorydd Jayne Cowan wedi'i dderbyn i'w ystyried a'i fod wedi'i gynnwys yn y Gwahoddiad Cyfarfod. Ni chafwyd unrhyw newidiadau i'r cynnig.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer y Cyngorydd Joel Williams i gyflwyno'r cynnig fel a ganlyn:

“Mae gwrth-semitiaeth yn ganfyddiad penodol o Iddewon, a allai gael ei fynegi fel casineb tuag at Iddewon. Cyfeirir amlygiadau rhethregol a chorfforol o wrth-semitiaeth tuag at unigolion Iddewig neu eraill a/neu eu heiddo, tuag at sefydliadau cymunedol Iddewig a chyfleusterau crefyddol.”

Eiliwyd y cynnig gan y Cyngorydd Jayne Cowan.

Gwahoddodd yr Arglwydd Faer drafodaeth ar y cynnig fel y'i cyflwynwyd.

Gofynnwyd am bleidlais wedi ei chofnodi ar y cynnig.

O BLAID:

CYNGHORWYR SIR, AHMED, ASGAR ALI, DILWAR ALI, BERMAN, BOWDEN, BOWEN-THOMSON, BOYLE, BRADBURY, BRIDGEMAN, CATER, COWAN, CUNNAH, DERBYSHIRE, DRISCOLL, EBRAHIM, ELSMORE, FORD, GIBSON, GODDARD, GOODWAY, GORDON, HENSHAW, GAVIN HILL-JOHN, PIPPA HILL-JOHN, HINCHEY, HOWELLS, HOPKINS, HUDSON, JACOBSON, JENKINS, KEITH JONES, OWEN JONES, JONES-PRITCHARD, JOYCE, KELLOWAY, LANCASTER, LAY, LENT, LISTER, MACKIE, MCGARRY, MCKERLICH, MERRY, MICHAEL, MOLIK, MORGAN, NAUGHTON, OWEN, PARKHILL, JACKIE PARRY, KEITH PARRY, PATEL, REES, ROBSON, SANDREY, SATTAR, SIMMONS, SINGH, STUBBS, TAYLOR, GRAHAM THOMAS, HUW THOMAS, THORNE, WALKER, WEAVER, WILD, WILLIAMS, WONG A WOOD.

Derbyniwyd y cynnig yn unfrydol.

80 : CWESTIYNAU AR LAFAR

*Cwestiwn – y Cyngorydd Hudson*

Pa gynnydd sydd wedi'i wneud hyd yma o ran yr hyb bysiau newydd arfaethedig yn Ysbyty Athrofaol Cymru?

*Ateb - y Cyngorydd Wild*

Hoffwn eich cyfeirio at yr ateb a ddarparwyd i'ch Cwestiwn Ysgrifenedig ar yr un pwnc.

*Cwestiwn Atodol – y Cyngorydd Hudson*

Ydych chi'n credu y bydd yr Hyb yn yr Ysbyty Athrofaol yn weithredol cyn gorsaf fysiau Canol y Ddinas?

*Ateb - y Cyngorydd Wild*

O ystyried yr amserlenni, nid wyf yn credu bod hynny'n debygol, rydym yn gweithio gyda'r Ysbyty Athrofaol i geisio cyflawni hynny cyn gynted ag y bo modd ond mae'n gynnwys yn y broses. Mae wedi derbyn caniatâd cynllunio ond mae'n dal i fod yn gynnwys iawn ac o ystyried yr amserlenni adeiladu, dydw i ddim yn dychmygu y byddai'n barod cyn yr orsaf fysiau.

*Cwestiwn – y Cyngorydd Berman*

A allwch amlinellu pa gyllid posibl y mae'r Cyngor wedi'i nodi neu wedi'i ddyrannu hyd yn hyn tuag at ei gynllun trafndiaeth newydd arfaethedig, gan gynnwys drwy roi manylion unrhyw ddulliau a roddwyd hyd yma i Lywodraeth Cymru ar gyfer cyllid posibl?

*Ateb - y Cyngorydd Wild*

Fe wnaethoch fy holi am gyllid ar gyfer ein gweledigaeth trafndiaeth, caiff Papur Gwyn ei gyhoeddi'n fuan a bydd mwy o fanylion ynddo am y pethau y byddwn yn eu cyflwyno, ond yn amlwg nid ydym yn segur, fel y byddwch wedi gweld o ran cyllid sydd wedi'i ddyrannu a chais wedi'i wneud amdano gan y Cyngor hwn. Yn ddiweddar, derbyniom £11 miliwn o'r Gronfa Drafndiaeth Leol, y ffigwr uchaf erioed ar gyfer y cyngor hwn, gan gynnwys symiau enfawr ar gyfer teithio llesol, ac mae

Llywodraeth Cymru yn wir cefnogi ein cynigion. Rydym hefyd wedi derbyn arian tuag at orsaf fysiau o £15 miliwn o ran y cytundeb yr ydym wedi llwyddo i'w gwneud yno ac fe welwch ein bod wedi llwyddo i gyflwyno cais am gronfa aer glân sydd yn ymwneud i raddau helaeth â newidiadau trafndiaeth am £15 i £20 miliwn hyd yn hyn felly rydym yn symud ymlaen â'r gwaith o newid yn y ddinas hon.

**Cwestiwn Atodol – y Cynghorydd Berman**

Rwy'n credu eich bod yn sôn am rywbeth fel £40 i £45 miliwn wrth adio'r rheiny'n gyflym, ond rydych wedi sôn am, neu mae'r weinyddiaeth wedi sôn yn hytrach, am y weledigaeth hon o ran trafndiaeth sy'n costio tua biliwn o bunnau ac rwyf wedi codi materion yn y gorffennol hefyd, felly a ydych chi'n rhoi sicrwydd i ni nad ydych ond yn cyflwyno breuddwyd i ni? Pryd ydych chi'n meddwl y byddwch chi mewn sefyllfa i ddweud wrthym eich bod chi'n meddwl y gallech chi gael y symiau sylweddol, a allai gyflawni cynllun gweledigaethol o'r fath, i brofi i ni fod hyn yn rhywbeth y gellid ei gyflawni mewn gwirionedd.

**Ateb - y Cynghorydd Wild**

Yn sicr, rwy'n cydnabod hynny a byddaf yn cyflwyno hynny yn y Papur Gwyn yn fuan iawn a bydd yn amlinellu rhai o'r syniadau radical sydd gennym o ran y drafnidiaeth yr ydym yn bwriadu ei chyflwyno. Nid yw'n mynd i fod yn hawdd ac rydym yn gwybod nad yw biliwn o bunnau yn hawdd i gael ond rydym yn bwriadu cyflwyno'r cynlluniau hynny yn fuan iawn.

**Cwestiwn – y Cynghorydd Ford**

Faint o dai fydd yn cael eu dymchwel er mwyn ail-agor y cyn-rheilffordd Llantrisant i Gyffordd Waterhall?

Beth mae'r Cyngor yn ei wneud i hysbysu'r bobl yr effeithir arnynt?

**Ateb - y Cynghorydd Wild**

Diolch i chi, Cynghorydd Ford am eich cwestiwn mewn perthynas â'r llinellau Metro newydd. Mae Trafnidiaeth Cymru yn archwilio nifer o bosibiliadau ar gyfer rheilffyrdd newydd fel rhan o Fetro De Cymru gan gynnwys rheilffyrdd y gogledd-orllewin yr ydym wir am eu gweld. Pan ddaw unrhyw gynigion a allai ddeillio ohonynt, byddem yn ceisio ymgysylltu â'r cyhoedd yn llawn.

**Cwestiwn Atodol – y Cynghorydd Ford**

O ran eich cwestiwn, a oes gennych amserlen ar gyfer y rheilffyrdd?

**Ateb - y Cynghorydd Wild**

Nid oes gennyf amserlen uniongyrchol ar gyfer hynny, ond rydym yn falch o ddweud bod y broses Well TAG Cam 1 ar waith gyda'n cydweithwyr yn RhCT a Thrafnidiaeth Cymru, sef y peth cyntaf sydd angen i ddigwydd, a dyna lle rydych yn cael yr holl opsiynau gwahanol wedi'u harfarnu. Y peth pwysig yw bod y darn hwnnw o waith wedi dechrau, mae'r gwariant ar gyfer y gwaith hwnnw wedi'i gyflwyno, felly rydym ar y trywydd iawn er nad ydym yn gwybod yr union amserlen mewn darnau gwahanol o'r gwaith, ond byddwn yn ceisio mapio hynny ychydig yn gliriach dros y misoedd nesaf.

**Cwestiwn – y Cynghorydd Mackie**

A allwch egluro pryd y mae'r orsaf fysiau yn debygol o gael ei chwblhau?

*Ateb – y Cyngorydd Goodway*

Gallaf gadarnhau bod cytundeb contract i gyflawni'r project wedi'i gyrraedd o'r diwedd rhwng Rightacres Property Company Ltd (y datblygwr), Legal & General (y cyllidwr) a Llywodraeth Cymru/Trafnidiaeth Cymru (y gweithredwr) ym mis Gorffennaf.

Mae gwaith paratoadol wedi bod ar y gweill ers wythnos er mwyn caniatáu i'r gwaith adeiladu ddechrau ar y safle yr wythnos nesaf, gan ddechrau gyda'r tirwaith a gwyradau carthffosydd. Bydd y prif gontractwr yn dechrau ar y safle ar 2 Rhagfyr 2019.

Cwblheir y broses o adeiladu elfen yr orsaf fysiau yn yr adeilad erbyn mis Mai 2022 gyda'r datblygiad cyfan wedi'i gwblhau'n llawn ac yn barod i'w drosglwyddo'n derfynol erbyn Hydref 2022.

Disgwylir y bydd gorffeniad yr orsaf fysiau yn cymryd tua 6 mis i'w chwblhau. Yn ddiweddar, cynhaliodd y Cyngor drafodaethau gyda Llywodraeth Cymru a'r datblygwr i archwilio a all gorffeniad yr orsaf fysiau ddechrau'n syth ar ôl cwblhau cydran gorsaf fysiau'r datblygiad, gyda'r bwriad o alluogi'r orsaf fysiau i fod yn weithredol ar yr un pryd â throsglwyddiad terfynol yr adeilad cyfan. Fodd bynnag, rwyf wedi cael ar ddeall bod materion cytundebol sylweddol i'w datrys fel y gellir cychwyn y gorffeniad cyn cwblhau'n ymarferol, ond rwy'n falch o ddweud bod yr holl bartïon yn gweithio i geisio sicrhau bod hyn yn digwydd.

*Cwestiwn Atodol – y Cyngorydd Molik*

Â'r anawsterau hyn i'w datrys, pryd ydych chi'n meddwl y gellid datrys y materion hyn yn rhesymol?

*Ateb – y Cyngorydd Goodway*

Rwy'n credu ei bod yn bwysig eu bod wedi'u datrys cyn i'r prif gontractwr gael ei roi ar y safle ar yr 2il o Ragfyr a'm bwriad yw gweithio i'r amserlen honno.

*Cwestiwn – y Cyngorydd Owen*

Yn dilyn nifer o ddamweiniau ffordd ar Heol y Deri, Rhiwbeina, yn oriau cynnar 6<sup>ed</sup> Gorffennaf, cafwyd damwain traffig ddifrifol arall. Pa fesurau y mae'r Cyngor wedi'u rhoi ar waith ers y ddamwain hon i helpu i atal digwyddiad tebyg arall?

*Ateb - y Cyngorydd Wild*

Roedd yn flin iawn gen i glywed am y digwyddiad ar Heol y Deri. Nid ydym eto wedi derbyn yr adroddiad ffurfiol am y gwrthdrawiad gan yr Heddlu, a wnânt ar ôl unrhyw un o'r mathau hyn o wrthdrawiadau ddigwydd, ac mewn gwirionedd mae angen i ni aros i weld hynny cyn i ni wybod beth, os o gwbl, y byddem yn ceisio ei wneud yn o.

*Cwestiwn Atodol – y Cyngorydd Owen*

Mae llawer o bryder gwirioneddol yn yr ardal am ddiogelwch y ffordd honno, bu nifer o ddamweiniau dros y blynyddoedd nid dim ond yr un y soniais amdano ar 6<sup>ed</sup> Gorffennaf, ond rwy'n gwerthfawrogi nad ydych wedi derbyn yr adroddiad eto. Mae arwydd cyflymder diffygiol ar Fryn Rhiwbeina sydd, mewn gwirionedd, yn cofnodi dim ond hanner y cyflymder a deithiwyd, a gwn fod disgwyl iddo gael ei ddatrys ymhen ychydig fisoedd ond, fe wnes i godi hynny'n gyntaf ar 8<sup>fed</sup> Mawrth, felly byddaf yn

ddiolchgar am unrhyw beth y gallwch ei wneud i gyflymu hynny ac edrychaf ymlaen at ryw weithredu yn yr ardal, diolch.

*Ateb - y Cyngorydd Wild*

Diolch fe fyddaf yn sicr yn mynd ar drywydd hynny o ran yr arwydd cyflymder diffygiol hwnnw.

*Cwestiwn – y Cyngorydd Howells*

Pa drafodaethau yw GLL yn cynnal gyda Chyngor Caerdydd cyn gweithredu newidiadau i'w raglenni yn ein canolfannau hamdden a sut y mae'r newidiadau hyn yn cael eu cyfleu i drigolion ac aelodau wardiau?

*Ateb – y Cyngorydd Bradbury*

Fel y gwyddoch efallai, fel Cadeirydd y Pwyllgor Craffu priodol, mae gennym drefniadau monitro a datblygu partneriaeth gadarn ar waith rhwng y cyngor a GLL, gyda thrafodaethau rheolaidd yn digwydd mewn perthynas â phob agwedd ar y contract a darparu gwasanaethau.

Mae Tîm Cleientiaid Hamdden y Cyngor yn cyfarfod â chynrychiolwyr GLL yn fisol er mwyn trafod a monitro'r contract. Mae uwch reolwyr yn cwrdd bob chwarter i drafod cynnydd ar y Cynllun Gwasanaeth Blynyddol ac mae Bwrdd Cyswllt y Project hefyd yn cyfarfod bob chwarter ac yn cael ei fynychu a'i gadeirio gennyf fi a'r Aelod Cabinet dros Gyllid, yn ogystal ag uwch reolwyr o'r ddwy ochr.

Mae swyddogaeth Graffu'r Cyngor, yr ydych chi'n chwarae rhan flaenllaw ynddo, hefyd yn rhan o'r gwaith o adolygu cynnydd y bartneriaeth. Fel rhan o'r newidiadau a wnaed i raglenni cyfleuster, mae GLL yn cyfleu newidiadau i gwsmeriaid drwy ystod o hysbysiadau a phosteri o fewn y cyfleusterau, yn ogystal â hysbysiadau gwefan, ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol ac yn uniongyrchol drwy'r aelodaeth.

Mae hyn o fewn y contract a byddwn yn dweud bod hyn yn debyg i'r ffordd y gwnaethom ymdrin â rhaglennu pan oedd y gwasanaeth yn fewnol.

*Cwestiwn Atodol – y Cyngorydd Howells*

Byddwch yn ymwybodol bod GLL wedi cyflwyno rhaglenni pwll newydd yn ein canolfannau hamdden a ddaeth i rym ar 2 Medi ac mae hyn wedi lleihau oriau nofio'r dydd yn arbennig yn y pwll nofio yn Hyb y Star. Mae llawer o'r preswylwyr yr wyf wedi siarad â hwy, sy'n defnyddio'r pwll yn rheolaidd, yn teimlo bod hyn yn beth annoeth ac nad yw'n gwneud dim i annog pobl leol i ddefnyddio'r pwll er mwyn gwella eu hiechyd a'u ffithrwydd. A gaf i ofyn a oeddech yn ymwybodol o fanylion y newidiadau hyn ac a oes unrhyw le i ofyn GLL adolygu'r penderfyniad hwn i ganiatáu mwy o nofio yn ystod y dydd?

*Ateb – y Cyngorydd Bradbury*

Roedd GLL wedi cyflwyno cynllun ymarfer dyfrol gyda'r nod o gael mwy o blant i nofio a chael mwy o wersi nofio a chawsom wybod am hynny. Fodd bynnag, fel yr wyf wedi dweud wrthyf yn breifat o'r blaen a dywedais wrth eich cydweithiwr yn y ward, y Cyngorydd Owen Jones, mae cyd-aelodau eraill wedi'i godi o fewn ardal y Star, ond yr wyf yn fodlon iawn edrych ar achosion unigol. Nid yw'r cynllun ymarfer dyfrol i fod i gau pwll i ffwrdd am chwe diwrnod os nad oes unrhyw un yn ei

ddefnyddio, y gwrthwyneb yw'r gwir, mae i fod i annog mwy o ddefnydd o'r pwll ac yn arbennig defnydd plant iau o'r pwll, felly rwy'n hapus i drafod yr achosion unigol hynny yr wyf wedi dod yn ymwybodol ohonynt o'r cyfryngau cymdeithasol a gyda chi a chynghorwyr eraill o fewn ardal y Star.

*Cwestiwn – y Cyngorydd Owen-Jones*

A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y fferm ynni haul?

*Ateb – y Cyngorydd Michael*

Mae contractau dylunio ac adeiladu'r fferm ynni haul wedi'u llofnodi ac mae'r contractwr yn y broses o fynd i'r afael ag amodau cynllunio cyn-cychwyn.

Bydd y gwaith o symud y safle a'r gwaith adeiladu cynnar yn dechrau yn ddiweddarach y mis hwn, gyda'r waith cynnar yn canolbwyntio ar y rhannau hynny o'r safle sydd heb eu cyfyngu gan fesurau sydd ar waith i ddiogelu adar sy'n gaeafu.

Mae disgwyl i'r fferm ynni haul ddechrau cynhyrchu ynni yn y gwanwyn y flwyddyn nesaf. Mae'r cynllun yn rhan bwysig o'n hymateb i faterion yn ymwneud ag argyfwng yn yr hinsawdd, ynghyd â chynlluniau ynni mawr eraill gan gynnwys y rhwydwaith gwres arfaethedig a'n strategaeth cludo allyriadau isel.

*Cwestiwn Atodol – y Cyngorydd Owen-Jones*

Mae'n galonogol iawn clywed ei fod yn mynd i fod ar waith mor fuan. Byddwn yn ceisio annog gan fod ynni adnewyddadwy yn mynd i fod yn agwedd mor bwysig ar ein sefyllfa o argyfwng newid yn yr hinsawdd fel nad ydym yn segur cyn gynted ag y caiff hyn ei sefydlu ac yn ystyried mai dyna'n rhan ni wedi gwneud, byddwn yn ein hannog eisoes i edrych ar gynlluniau pellach o ran sut y gallwn barhau i fynd ar hyn a chadw'r momentwm.

*Ateb – y Cyngorydd Michael*

Cytunaf yn llwyr â chi, a gaf achub ar y cyfle i ddiolch i'r swyddogion dan sylw, Gareth a'i dîm, am y gwaith aruthrol a wnaethant i wireddu hyn mewn cyfnod mor fyr. Gallwn nawr, dwi'n meddwl, unwaith y bydd y fferm wedi ymsefydlu ac yn dechrau cynhyrchu, ddechrau canolbwyntio ar y rhwydwaith gwres sy'n gynllun gwerth chweil arall a fydd mewn gwirionedd yn gwneud gwahaniaeth enfawr yn yr allyriadau carbon a gynhyrchir gan y Cyngor hwn.

*Cwestiwn y Cyngorydd Robson*

O ystyried y digwyddiadau diweddar a oedd yn effeithio ar ddau aelod o'm grŵp, a allwch sicrhau bod pob cyngorydd yng Nghaerdydd yn ymwybodol o'r mesurau diogelwch y gellir eu cymryd ac yn cynnig unrhyw offer diogelwch y mae'r Cyngor yn ei argymhell?

*Ateb – y Cyngorydd Huw Thomas*

Rydym yn amlwg wedi cyfeirio at hyn yn ystod y drafodaeth ar y cynnig, ond rwy'n gwybod y bydd pob aelod yn y Siambr hon yn ymuno â mi i gondemnio'r digwyddiadau diweddar yn ymwneud â chydweithwyr etholedig, nid yn unig yn eich plaid chi ond ar draws y Siambr wleidyddol. Mae pob cyngorydd wedi cael gwybod am arweiniad diogelwch personol aelod ac wedi cael cynnig y cyfle i drafod unrhyw bryderon diogelwch personol a allai fod ganddynt gyda rheolwr diogelwch

corfforaethol y Cyngor. Rwy'n deall bod wyth cynghorydd wedi gofyn a chwblhau asesiadau diogelwch personol hyd yma er mwyn penderfynu pa fesurau rhagweithiol y gallent eu cymryd i gynnal eu diogelwch personol ac i nodi unrhyw gymorth ychwanegol yr oedd ei angen gan y Cyngor.

Cynghorwyd cynghorwyr hefyd bod y rheolwr diogelwch corfforaethol ar gael i ddod a chyfarfodydd grŵp gwleidyddol gyda'i gilydd os ydynt yn credu bod hynny'n briodol.

#### *Cwestiwn Atodol – y Cynghorydd Robson*

Rwy'n siŵr y byddwn yn cael y rheolwr diogelwch corfforaethol i ddod i gyfarfod ein grŵp ac rwy'n gweithio i drefnu hynny. Dylwn hefyd ychwanegu nid yw'r digwyddiadau y cyfeirir atynt i gyd yn ymwneud â chrefydd, cafodd un aelod o'r grŵp ddigwyddiadau am ei fod yn Geidwadwr, rwy'n siŵr bod cynghorwyr eraill mewn pleidiau gwahanol wedi cael eu beirniadu, mwy na chael eu beirniadu, ac wedi cael pethau wedi eu gwneud yn anffodus oherwydd o'u credoau gwleidyddol. Felly, mewn gwirionedd, roeddwn i am ailadrodd y dylwn gymryd hyn o ddifrif fel yr awgrymwch sy'n ardderchog, diolch hefyd i'r timau, y tîm diogelwch a'r gwasanaethau democrataidd sydd hefyd yn cymryd hyn o ddifrif. Yn amlwg, rwyf am drafod ffyrdd ymlaen gydag arweinwyr Grŵp fel y gallwn geisio mynd i'r afael â hyn a lle y gallwn o bosibl ei ddatrys ond hefyd wedyn i sicrhau bod gan y Cyngor y cysylltiadau cryf hynny gyda'r heddlu a allai fod wedi bod yn rhagorol mewn rhai achosion. ond mae angen i mi sicrhau bod yr heddlu'n gweithio ledled Caerdydd ac nid dim ond delio â gwahanol ddigwyddiadau Cynghorwyr unigol, rhag ofn bod patrwm ar draws Caerdydd ac nad yw'r patrwm hwnnw'n cael ei golli, felly rwy'n croesawu'r gefnogaeth i hynny.

#### *Cwestiwn – y Cynghorydd Sandrey*

Beth mae'r Cyngor yn ei wneud i sicrhau bod bysiau yn gallu cael mynediad i ddatblygiad tai Sant Edern?

#### *Ateb - y Cynghorydd Wild*

Diolch am eich cwestiwn am Sant Edeyrn a datblygiad y lonydd bysus. Fel llawer o'r safleoedd datblygu strategol, bydd trafndiaeth gyhoeddus yn hanfodol er mwyn eu gwneud yn gynaliadwy, ond rydym yn falch iawn yn enwedig gyda'r datblygiad hwn, rydym yn gweld y gwasanaeth bws cyntaf a ariennir yn llawn wedi'i ariannu gan y datblygwyr eu hunain, yr X95 yn gweithredu i Sant Edern ond hefyd fel rhan o'r cynllun mae lôn fysiau wedi'i darparu wrth ddynesu at fynediad y prif safle wrth y gyffordd â Heol Pontprennau, ac mae hyn yn galluogi bysiau i osgoi unrhyw draffig yn ciwio wrth y ffordd i'r gyffordd o'r tu mewn i'r safle.

#### *Cwestiwn Atodol – y Cynghorydd Sandrey*

Nid oedd fy nghwestiwn yn ymwneud â'r lonydd bysiau mewn gwirionedd, mae'n ymwneud â'r broblem gyda cheir a cherbydau contractwyr sy'n rhwystro mynediad i'r ystâd yn rheolaidd. Dwi'n gweld negeseuon o NAT a Bws Caerdydd ar y cyfryngau cymdeithasol yn dweud nad ydyn nhw'n gallu gwasanaethu'r ystâd oherwydd nad ydyn nhw'n gallu mynd yno oherwydd y cerbydau ac mae hynny'n broblem fawr o ran annog y preswylwyr newydd yma i ddefnyddio bysiau.

#### *Ateb - y Cynghorydd Wild*

Yn hollol a fel gydag unrhyw fath o ddatblygiad newydd mae problemau yno wrth i chi fynd ymlaen gyda chontractwyr yn ceisio gweithio a phob math o bethau. Rwy'n meddwl y tro hwn bod angen i'r contractwyr wella lle maent yn gadael rhai o'r cerbydau ac rwy'n deall eu bod wedi cael y neges honno a byddaf yn sicrhau bod hyn yn gwella wrth fynd ymlaen, ond rhowch wybod os ydych yn credu ei bod yn parhau i fod yn broblem i'r gwasanaeth hwnnw.

*Cwestiwn – y Cyngorydd Gordon*

Faint o gymorth a chyngor y gall y swyddogion cynllunio eu rhoi i grwpiau cadwraeth a thriolion sy'n byw yn ardaloedd cadwraeth y ddinas?

*Ateb - y Cyngorydd Wild*

Diolch i chi, Cyngorydd Gordon am eich cwestiwn yn ymwneud ag ardaloedd cadwraeth a pha gymorth y gallwn ei roi i grwpiau ardal gadwraeth. Mae ein swyddogion cyngor ardderchog yn rhoi cyngor ar faterion Ardaloedd Cadwraeth cyffredinol ac rwy'n gwybod lle mae cyswllt wedi cael ei wneud yn y gorffennol a hefyd yn ddiweddar mae perthynas ardderchog rhwng y swyddogion hynny a gwirfoddolwyr a staff. Ceir cryn dipyn o wybodaeth hefyd ar y wefan gyda dolenni i dafenni, arfarniadau ar gyfer pob ardal gadwraeth wahanol sy'n disgrifio'r gwahaniaethau rhyngddynt a'r lleoliadau arbennig ac unrhyw fframwaith i reoli newid yn effeithiol tra'n gwarchod pob gymeriad ac edrychiad yr ardal. Mae llawer o wybodaeth yno ac yn hoffi dweud bod ein swyddogion yn gwneud gwaith da ac mae ganddynt berthynas dda yn y fan honno.

*Cwestiwn – y Cyngorydd Williams*

Beth mae'r Cyngor yn ei wneud i atal lleithder a diffyg inswleiddio sy'n effeithio ar fflatiau preswylwyr yn dilyn cymryd i ffwrdd y cladin ar fflatiau Lydstep?

*Ateb – y Cyngorydd Thorne*

Fel y gŵyr yr Aelodau, tynnwyd y cladin o flociau uchel y Cyngor mewn ymateb i bryderon diogelwch yn dilyn trychineb Tŵr Grenfell. Mae'r opsiynau ar gyfer gosod cladin newydd ar yr adeiladau yn cael eu harchwilio ar hyn o bryd. Mae angen i ni roi ystyriaeth ofalus i unrhyw systemau cladin yn y dyfodol er mwyn sicrhau diogelwch ein tenantiaid. Gobeithiwn y bydd y gwaith yn dechrau ar y safle i ail-osod y cladin yn haf 2020.

Rwy'n sylweddoli bod rhai tenantiaid wedi dioddef o leithder a llwydni ers tynnu'r cladin. Rydym yn rhoi nifer o fesurau ar waith i liniaru'r mater hwn dros y gaeaf sydd i ddod. Bydd ein gwasanaeth atgyweirio yn mynd i eiddo i dynnu a thrin unrhyw fowld sy'n digwydd. Byddwn hefyd yn treialu cynnyrch inswleiddio mewnol i ddiogelu rhag lleithder yn y tymor byr. Cynhelir archwiliadau o'r atgyweiriadau dros dro, yn enwedig o amgylch y ffenestri, er mwyn sicrhau eu bod yn effeithiol.

Os oes gan y tenant unrhyw gyflwr iechyd sylfaenol a all gael ei waethygu gan yr amodau yn y blociau, mae swyddogion yn cynnig trefnu i'r tenant symud. Bydd preswylwyr hefyd yn cael £200 mewn iawndal er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cynnal a chadw'r gwres rheolaidd o fewn eu fflatiau dros gyfnod y gaeaf.

Yr wyf yn gwerthfawrogi'r trallod y mae hyn yn ei achosi i denantiaid, a byddwn yn bwrw ymlaen ag ateb cladin parhaol cyn gynted ag sy'n bosibl. Gallaf eich hysbysu



bod y cynghorwyr ward a'r tenantiaid yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd ac yr ymgynghorir â hwy cyn cytuno ar unrhyw system gladin newydd.

*Cwestiwn Atodol – y Cynghorydd Williams*

Mae'r ymateb cynhwysfawr yn galonogol. Mae mor bwysig, fel aelod o ward Pontprennau a Llaneirwg, nad wyf yn cynrychioli Ystum Taf, ond rwy'n gynghorydd yng Nghaerdydd, ond mae diogelwch dinasyddion yn ein heiddo yn flaenoriaeth ac mae hynny'n ymestyn y tu hwnt i Pontprennau a'r Llaneirwg. A allwch barhau i sicrhau bod pob cynghorydd yn cael y wybodaeth ddiweddaraf oherwydd mae hyn yn peri pryder i nifer o deuluoedd a allai mewn gwirionedd fyw y tu allan i Ystum Taf efallai yn fy ward i, Pontprennau a Llaneirwg ond sydd am weld rhywfaint o gynnydd ar hyn i dawelu meddyliau eu ffrindiau a theuluoedd sy'n byw yn y lleoliad, diolch.

*Ateb – y Cynghorydd Thorne*

Rwy'n ddigon bodlon i roi gwybod i bob aelod os mai dyna yw gwir ddymuniad yr Aelodau ac rwy'n cytuno'n llwyr â chi ynghylch diogelwch ein holl denantiaid ac mewn gwirionedd, dyna'r pwynt nad oedd y fflatiau hyn yn cynnwys yr un cladin â Grenfell, a'n bod wedi cymryd yr awenau mewn gwirionedd er mwyn ei wirio felly byddwn yn rhoi gwybod i chi os mai dyna yw eich dymuniad.

*Cwestiwn – y Cynghorydd Sandrey*

A yw'r Cyngor yn ymwybodol bod Campws Cyncoed Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn cael ei ddefnyddio gan rai fel cyfleuster parcio a theithio ad hoc ar gyfer Campws Llandaf?

*Ateb - y Cynghorydd Wild*

Gan gyfeirio at Gampws Cyncoed Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn cael ei ddefnyddio fel cyfleuster parcio a theithio ad hoc ar gyfer Campws Llandaf, nid yw'n rhywbeth yr ydym yn gwbl ymwybodol ohono neu sydd wedi achosi problemau mawr i ni, ac mewn gwirionedd mae'n fater i Brifysgol Caerdydd

*Cwestiwn Atodol – y Cynghorydd Sandrey*

Rwy'n gwerthfawrogi hynny, roeddwn i eisiau ei godi fel mater oherwydd mae'n rhywbeth sydd wedi'i gylchredeg ar Facebook gyda phobl yn cynghori ei gilydd i barcio ar gampws Cyncoed er mwyn cael y bws i'r Llandaf, ac yn amlwg nid yw'r cyfleuster hwnnw wedi'i gynllunio i fod yn safle parcio a theithio, ac roedd pryderon y byddai gormod o alw wedyn am y maes parcio ac y byddai hynny'n gorlifo i Gyncoed a Llanedern, ac roeddwn i eisiau eich gwneud chi'n ymwybodol o hynny.

*Cwestiwn – y Cynghorydd Gordon*

Fel y gwyddoch, bob Hydref dros y blynyddoedd diwethaf, mae trigolion Glan-yr-afon wedi clirio dail yr Hydref yn disgyn o ochrau'r ffyrdd a'r palmentydd mewn partneriaeth â'r timau glanhau strydoedd. Mae'n gwneud gwahaniaeth enfawr i'n hardal o ran diogelwch, osgoi tripiâu a llithro ar ddail ac edrychiad y strydoedd. A yw'r timau glanhau yn mynd i allu helpu eto gyda chasgliadau ar benwythnosau fel yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf?

*Ateb – y Cynghorydd Michael*

Bydd 'Y Glanhad Mawr' yn digwydd eto, ie, lle bydd staff glanhau yn cynorthwyo grwpiau trigolion i symud y cwmp dail ar draws y ddinas. Gan nad yw gemau rygbi

rhyngwladol yr Hydref yn digwydd eleni, heblaw am gêm y Barbariaid, mae'n golygu y bydd gennym fwy o weithwyr a all weithio gyda grwpiau. Os bydd unrhyw Aelod yn gwybod am unrhyw grwpiau preswylwyr sy'n cymryd rhan, cysylltwch â'r grŵp Carwch eich Caerdydd, swyddogion cyswllt neu cysylltwch â mi a byddwn yn eu helpu i wneud yr hyn rydym bob amser yn ei wneud gyda chymorth dinasyddion y ddinas.

*Cwestiwn Atodol – y Cyngorydd Gordon*

Y cyfan yr wyf am ei wneud yw gwneud cais bod tua 7 o strydoedd Pontcanna a De Glan-yr-afon wedi cael llawer o goed yn colli malurion dail a changhennau drwy'r haf a bod llawer i'w clirio. Fe wnes i adael i strydoedd glân wybod bod angen gweithredu ar frys i glirio'r malurion sydd yn y gwteri ar hyn o bryd ond rwy'n ofni dweud na fu unrhyw weithredu a bod hynny'n anarferol, fel arfer fe wyddoch ein bod yn cael ymateb da iawn. Fe wnes i roi gwybod iddynt yn yr haf bod llawer o geir sydd fel arfer yn y strydoedd hyn yn absennol gan fod pobl wedi mynd i ffwrdd ar wyliau a bod lle i ddod i mewn a'u clirio, ond o ran y 7 stryd hyn - ydych chi'n meddwl y gallech chi o bosibl trefnu cyn-lanhau'r 7 stryd benodol hyn, cyn i ni ddechrau cael preswylwyr allan i ddefnyddio'u hynni eu hunain a helpu'r Cyngor i gael eu strydoedd eu hunain yn lân?

*Ateb – y Cyngorydd Michael*

Os gallwch ddanfôn enwau'r strydoedd ataf, byddaf yn hapus i gymryd rhan a gweld beth gallem wneud.

*Cwestiwn – y Cyngorydd Boyle*

Ym mis Chwefror, gofynnodd yr Aelod Cabinet dros Addysg i swyddogion gysylltu â Bws Caerdydd ynghylch fy "awgrym synhwyrol iawn" y dylai gwasanaeth bws i Gaerdydd fod yn rhedeg i fyny Cyncoed Road i ddarparu ar gyfer y nifer fawr o ddisgyblion sy'n teithio i'r ysgol o'r ochr honno o Penylan. Oni bai, gall yr Aelod Cabinet ddweud wrthyf fel arall, mae'n ymddangos nad yw'r ymholiadau hynny wedi arwain at lawer o lwyddiant hyd yn hyn.

Pa gamau a gymer y weinyddiaeth yn awr i gefnogi ein hymdrechion i weld cyflwyno gwasanaeth o'r fath, a thrwy hynny annog teithio llesol, tynnu ceir oddi ar y ffyrdd a lleihau lefelau tagfeydd o amgylch Caerdydd uchel ar ddechrau ac ar ddiwedd y diwrnod ysgol?

*Ateb - y Cyngorydd Merry*

Byddai darparu gwasanaeth bws o'r fath yn fater i Fws Caerdydd, sydd – fel y gwyddoch – yn gweithredu ar hyd braich o'r Cyngor. Ni all y Cyngor gyfarwyddo'r cwmni bysiau i ddarparu gwasanaethau penodol a mater i'r cwmni bysiau yw penderfynu a fyddai'r newid hwn yn ymarferol yn fasnachol ai peidio. Fodd bynnag, rwy'n deall eich pryder, nid wyf wedi cael y wybodaeth ddiweddaraf hyd yma ac rwyf wedi gofyn i'r mater gael ei hel ar fyrder.

Ar hyn o bryd rydym wrth gwrs yn datblygu rhaglen ar gyfer ymgysylltu ag ysgolion presennol i ddatblygu eu cynlluniau teithio llesol a fydd hefyd yn edrych ar gerdded beicio a sgwtio.

*Cwestiwn Atodol – y Cyngorydd Boyle*

Felly mae'r rhan gyntaf yn ddefnyddiol, nad yw swyddogion wedi cael ateb eto ond byddant yn gofyn am ateb. Gwerthfawroga'r anhawster sydd gennych mewn perthynas â'r cwmni bysiau, mewn gwirionedd nod y cwestiwn oedd nodi'n unig a oes unrhyw gamau y gall y Cyngor eu cymryd yn ymarferol neu a adewir i ni ymladd yr achos yn lleol orau y gallwn, a fyddaf yn parhau i wneud, wrth gwrs, ond os oes unrhyw gymorth y gall y Cyngor ei ddarparu, byddai'n ddefnyddiol ac yn anogol i'r preswylwyr. Rwy'n amau felly nad oes.

*Ateb - y Cyngorydd Merry*

Byddaf yn mynd ar drywydd ymateb gan Fws Caerdydd a byddaf hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am unrhyw gynlluniau teithio llesol.

*Cwestiwn - y Cyngorydd Lister*

A all yr Aelod Cabinet ddweud faint o bwyntiau gwefru trydan sydd yn y ddinas ar gyfer cerbydau trydan a hybrid?

*Ateb – y Cyngorydd Michael*

Yn ddiweddar mae'r Cyngor wedi gosod 18 pwynt gwefru cyhoeddus 'cyflym' ar draws 10 lleoliad a gefnogir gan grant o gynllun pwynt gwefru preswyl OLEV. Disgwylir i'r pwyntiau gwefru hyn gael eu lansio'n swyddogol yn ddiweddarach y mis hwn.

Yn ddiweddar mae'r Cyngor wedi cyhoeddi partneriaeth gydag Eugenie i osod 12 pwynt gwefru 'cyflym' mewn 6 lleoliad ar y stryd yn y ddinas. Mae pwyntiau gwefru eraill ar gael i'r cyhoedd, a ddarperir gan gyflenwyr preifat, a gellir dod o hyd i'r rhain drwy edrych ar y map ZAP.

Mae'r Cyngor wrthi'n ceisio datblygu datrysiad a fydd yn darparu rhwydwaith ehangach yn y ddinas, gan weithio gyda diwydiant a phartneriaid i gaffael rhwydwaith gwefru sy'n addas ar gyfer y dyfodol.

*Cwestiwn – y Cyngorydd Cowan*

Faint mae'n ei gostio i lenwi tyllau safonol gan ddefnyddio:-

- Staff y Cyngor
- Staff Asiantaeth
- Staff Cwmni Allanol

Faint o dyllau sydd angen eu hadnewyddu cyn pen 8 wythnos ar ôl y gwaith atgyweirio cychwynol (fel canran)?

*Ateb - y Cyngorydd Wild*

Nid yw'r Cyngor yn defnyddio staff allanol i lenwi tyllau yn y ffordd, a'r gost fras i lenwi twll yn y ffordd yw £15, bydd angen ailosod 2% o'r atgyweiriadau hyn cyn pen wyth wythnos ond fel y gwyddoch rydym bellach yn canolbwyntio llawer mwy ar waith clytio darbodus iawn, ac rwy'n credu y bydd y rhai sydd wedi gweld gwaith clytio hun yn cael ei wneud yn eu wardiau eu hunain, yn cytuno ei fod yn rhoi gorffeniad da iawn gan gynnwys rhywfaint o waith clytio rhagorol ar Rhiwbina Hill a Wenault Road.

*Cwestiwn Atodol – y Cyngorydd Cowan*

A allwch ymhelaethu ychydig ar y £15 a yw hynny'n amlwg yn golygu unrhyw gostau o ran deunyddiau a hefyd amser swyddogion sy'n amlwg yn gost fwy?

*Ateb - y Cyngorydd Wild*

Ni allaf ymhelaethu'n ymhellach ar y gost, gofynnwyd i mi gael y gost a dyna beth wnes i, os ydych am gael mwy o fanylion am sut yn union y cafodd hynny ei ddadansoddi ceisiaf sicrhau hynny i chi, Cyngorydd Cowan.

*Cwestiwn - y Cyngorydd Lister*

Pa waith sy'n cael ei wneud gan y Cyngor i ddatblygu'r Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau Ysgol?

*Ateb - y Cyngorydd Merry*

Eleni, cyflwynwyd y Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau Ysgol 'Bwyd a Hwyl' mewn 16 o ysgolion yng Nghaerdydd, ac amlinellwyd y manylion yn fy natganiad cynharach. Cynhyrchwyd fideo o'r rhaglen eleni, a fydd i'w gweld yng nghynhadledd Prifathrawon Caerdydd ar 3<sup>ydd</sup> Hydref 2019. Mae'r fideo yn manylu ar yr effeithiau y mae'r rhaglen yn eu cael ar blant a theluoedd, yn ogystal â'r manteision i'r ysgolion dan sylw. Bydd hyn yn helpu i hyrwyddo'r Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau Ysgol i ysgolion ac yn cynyddu'r nifer sy'n manteisio arnynt er mwyn ein galluogi i gyrraedd ein targed o gael 20 ysgol yn cyflwyno'r rhaglen yn 2020. Rydym hefyd yn archwilio sut y gall cynghorwyr gyfrannu at gynyddu'r nifer sy'n manteisio ar y rhaglen.

Rydym yn parhau i ymgysylltu â sefydliadau, asiantaethau a chefnogwyr allanol i adeiladu ymhellach ar y cysylltiadau a ddatblygwyd flwyddyn ar ôl blwyddyn ac i alluogi datblygu gweithgareddau a phrofiadau cyfoethogi newydd. A hoffwn ddiolch yn bersonol i'r holl sefydliadau hynny sydd wedi helpu yn ein hysgolion ledled y ddinas yn ystod y gwyliau ac wrth gwrs i'r staff y mae llawer ohonynt yn rhoi'r mwyaf o'u hamser gwyliau i helpu ein plant.

*Cwestiwn Atodol - y Cyngorydd Lister*

Fel y gwyddoch, rwyf wedi bod yn ymweld ag ysgolion yn Ne Caerdydd gyda Vaughan Gething, yr Aelod Cynulliad, am y tair blynedd diwethaf ac yn gweld y rhaglen Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau Ysgol ar waith ac rwyf wedi gweld ei bod yn tyfu o nerth i nerth, felly hoffwn ymuno â chi i ddiolch i'r holl staff sy'n gwneud i hynny ddigwydd i wneud yn siŵr bod ein plant yn cael prydau poeth a gweithgarwch corfforol drwy gydol yr haf. Fel yr ydych eisoes wedi crybwyll, mae'n wych i weld cynghorwyr yn cymryd mwy o ran felly a wnewch ymuno â mi a gweithio gyda mi i annog cynghorwyr eraill sydd ar gyrff llywodraethu i weithio gyda'u hysgolion lleol i weld a allwn ehangu'r rhaglen honno ymhellach.

*Ateb - y Cyngorydd Merry*

Credaf fod yna ddwy rôl amlwg i ni fel cynghorwyr yma, mae gennym rai ohonom a oedd yn ddigon ffodus i fod â Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau Ysgol yn gweithredu o fewn eu wardiau ac mae rôl i ni mewn gwirionedd wrth annog rhieni i fanteisio ar y cynllun, weithiau y teuluoedd mwyaf bregus yw'r anoddaf i'w cyrraedd mewn gwirionedd o ran cynlluniau fel y Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau Ysgol, felly mae rôl i ni yno ac wrth gwrs rydym, neu mae llawer ohonom, yn llywodraethwyr ysgolion lleol. O ran ehangu'r cynllun, rydym yn amlwg yn ceisio rhoi blaenoriaeth i'r ysgolion hynny sydd â'r lefelau uchaf o blant â phrydau ysgol am ddim am resymau dealladwy, gobeithiaf, gan y Cyngor.

*Cwestiwn – y Cyngorydd Graham Thomas*

A yw'r Aelod Cabinet yn ymwybodol o'r newidiadau amrywiol i amserlenni cyfleusterau canolfannau hamdden sy'n cyfyngu ar amseroedd agor ymhellach ac yn cytuno arnynt? Os gwneir y newidiadau hyn am resymau arbed costau, mae hyn yn mynd yn groes i ymgais Cynulliad Cymru i gael mwy o bobl yn actif.

*Ateb – y Cyngorydd Bradbury*

Fe'ch cyfeiriai at yr ateb a roddais i'r Cyngorydd Howells, mae'r rhaglen yn rhan o'r cynllun Ymarfer Dŵr newydd ar gyfer Caerdydd ac yn cyd-fynd â'n hamcanion i wella lefelau gweithgarwch yn benodol. Bydd yn darparu rhaglen fwy penodol ar gyfer sesiynau, sy'n cael ei thargedu i wella opsiynau ar gyfer anabled, plant, mamau & nofio plant bach ac ysgolion. Felly ni chafodd ei lywio gan dorri costau.

*Cwestiwn Atodol – y Cyngorydd Graham Thomas*

Rwy'n gwerthfawrogi y gofynnwyd y cwestiwn hwn i chi eisoes yn barod a gwrandewais yn ofalus iawn ar eich trafodaeth gyda'r Cyngorydd Howells, ond mae'r adborth yr wyf yn ei gael gan breswylwyr yn awgrymu bod angen iddynt gyfleu'r newidiadau hyn fwy ymlaen llaw, oherwydd fy mod yn gwybod bod llawer o breswylwyr wedi troi lan i gael mynediad i'w hamseroedd nofio arferol ac yn sydyn yn darganfod na allant fynd i mewn ac maent yn ddefnyddwyr rheolaidd, felly er ond yn colli wythnos neu ddwy nid oeddent yn ymwybodol bod y pwll yn mynd fod ar gau, felly efallai y gallech chi drosglwyddo hynny iddyn nhw. Derbyniaf yn llwyr fod yn rhaid iddynt gael rhywfaint o ryddid i redeg y canolfannau yn eu ffordd eu hunain a chwilio am arbedion effeithlonrwydd ond a allwch fy sicrhau na fydd yr arbedion effeithlonrwydd hyn yn ymestyn i gwtogi'n ddiddiwedd ar wasanaethau megis cau pyllau nofio ar rai adegau o'r dydd, yn amlwg i arbed ar gostau staff, mae hynny'n ymddangos fel defnydd aneffeithlon o'n hadnoddau Cyngor ac mae angen anelu at gadw ein preswylwyr ifanc a hen mor actif â phosibl.

*Ateb – y Cyngorydd Bradbury*

Gallaf eich sicrhau o hynny oherwydd mae'r trafodaethau yr ydym wedi bod yn eu cael gyda GLL yn ymwneud mewn gwirionedd â gwella gwasanaethau ac arlwyo'r gwasanaeth i ateb y galw. I roi gwybod i chi fel rhan o'r cynllun Ymarfer Dŵr hwn rwyf wedi gofyn am ychydig o wybodaeth am hyn oherwydd, fel rhan o hyn, maent wedi cynyddu cyflog athrawon nofio 50%, mae pyllau yn cael eu paru - sef Dwyreiniol/Pentwyn Maendy/Llanisien Gorllewinol/y Tyllgoed i ddarparu rhaglen gytbwys felly os yw un gwasanaeth yn cael ei gynnig yn y Gorllewin, byddant yn cynnig gwasanaeth gwahanol yn y Tyllgoed. Caiff ysgolion eu cyfeirio at amserau penodol yn hytrach na gofynion ar hap, Pentwyn am nosweithiau a phenwythnosau nofio achlysurol, mae chwyddadyn dŵr pluog yn cael ei roi ar waith, gwyliau a phlant dros 8, mae Llanisien yn edrych ar blant dan bump oed a chydraddoldeb ffocws teuluol, sesiynau penodol i bobl ag anabledau, felly mae hyn i gyd yn rhan o'r cynllun. Yn y Star a'r Maendy rydyn ni'n edrych ar ganolbwyntio'n gynhwysol ar fenywod Du a Lleiafrifoedd Ethnig gan fod y Cyngorydd Molik a chynghorwyr eraill wedi gofyn amdano. Mae lleoedd ychwanegol i ysgolion nofio rhwng y rhain i gael eu nodi yw sesiynau nofio estynedig i Ferched yn unig. Rwy'n derbyn nad yw'r cyfathrebu hyn ar gyfryngau cymdeithasol ac hysbysfyrddau bob amser wedi taro pawb wrth iddo ddod i mewn ar 1 Medi ac wedi bod yn dipyn o newid diwylliant, fodd bynnag, rydw i'n teimlo y bydd y cynllun yn ei gyfanrwydd yn fuddiol ond rwyf bob amser yn hapus i dderbyn adborth, os ydych yn clywed am unrhyw achos neu

adborth unigol y gallaf ei roi yn ôl i GLL, ac mae hynny'n wir am unrhyw Aelod yn y Siambr hon.

*Cwestiwn – y Cyngorydd Jones-Pritchard*

Mae'r Cyngor hwn yn falch iawn o ddatblygu llety dros dro drwy gynllun arloesol sy'n defnyddio cynwysyddion llongau i ddarparu llety dros dro o safon i deuluoedd digartref. Eto i gyd, mae arweinydd y Blaid Lafur wedi siarad yn erbyn y math hwn o lety, gan feirniadu, mewn termau cryf, ddefnyddio cynwysyddion llongau ar gyfer cartrefu plant. Pa gyngor fyddai'r Aelod Cabinet yn ei roi i'w harweinydd ar fanteision y dull arloesol hwn o ddarparu tai dros dro sydd eu hangen yn fawr ar gyfer y digartref?

*Ateb – y Cyngorydd Thorne*

Byddai'n well gennym, wrth gwrs, ddarparu datrysiadau tai parhaol mewn ymateb i'r cynnydd enbyd mewn digartrefedd ers i Lywodraeth y DU gyflwyno polisiau llymder yn 2010.

Mae ailosod cynwysyddion llongau ar gyfer tai dros dro yn darparu ateb cyflym a chosteffeithiol i ddarparu cartrefi newydd o ansawdd da i helpu i fynd i'r afael â digartrefedd yn y ddinas. Mae'r ateb dros dro hwn ar gyfer tai hefyd yn helpu i gadw pobl allan o hosteli ac oddi ar y strydoedd.

Byddant yn ychwanegiad gwerthfawr i'r ystod o lety dros dro o ansawdd da sydd ar gael i deuluoedd digartref yng Nghaerdydd a bydd yn rhoi lle cyfforddus, cynnes a diogel i breswylwyr fyw tra bod datrysiadau tai tymor hwy yn cael eu canfod. Byddant hefyd yn ein helpu i barhau â'n hanes ardderchog o beidio â lletya teuluoedd mewn llety gwely a brecwast, practis sy'n dal i fod yn gyffredin mewn rhai awdurdodau lleol eraill.

*Cwestiwn atodol – y Cyngorydd Jones-Pritchard*

Rwy'n credu bod hwnnw'n gyngor gwych i'w roi. Rwy'n credu ei bod yn fenter ragorol ac rwy'n falch o glywed eich bod chi'n dweud mai llety dros dro ydyw ac y byddem yn symud pobl i lety mwy parhaol cyn gynted â phosibl; un o egwyddorion y fenter wrth gwrs yw ei ddefnyddio o safleoedd dros dro, felly a allwn ni hefyd ymrwymo, pan fydd angen datblygu'r safle hwn, bod yr unedau hynny'n cael eu symud i safle dros dro arall ac yn darparu cyfwerth â llety mawr ei angen.

*Ateb – y Cyngorydd Thorne*

Yn sicr, nid ydym ond yn defnyddio safleoedd aros am driniaeth yn y cyfamser, ond gallaf ychwanegu hefyd fod y cartrefi newydd hyn yn cyflawni'r un safonau adeiladu cadarn o ran ansawdd â'n cartrefi a adeiladwyd yn draddodiadol ac mae'r ddau gynllun wedi'u cymeradwyo drwy gymeradwyaeth dechnegol Llywodraeth Cymru a thrwy ein proses ein hunain ar gyfer rheoli a chynllunio adeiladau a byddant yn rhagori ar safonau gofod dros dro Llywodraeth Cymru felly y byddant yn rhagorol, ac unwaith y byddwn wedi eu cwblhau os bydd unrhyw aelodau'n hoffi ymweld, byddaf yn fwy na pharod i drefnu hynny.

81 : MATERION BRYD

Dim

82 : PENODI LLYWODRAETHWYR YSGOLION YR AWDURDOD LLEOL

Gofynnwyd i'r Cyngor gymeradwyo argymhellion Panel Llywodraethwyr yr Awdurdod Lleol 10 Medi 2019.

PENDERFYNWYD

1. Dylid cymeradwyo'r penodiadau canlynol i swyddi gwag presennol

Ysgol	Ward	Dechrau'r Cyfnod Gwag	Cymeradwyo'r Penodiad
Ysgol Gynradd Allensbank	Gabalfa	09/07/2019 09/07/2019	Nirushan Sudarsan Sergey Popov
Ysgol Gynradd Gladstone	Cathays	08/07/2019	Y Cynghorydd Norma Mackie
Ysgol Gynradd Lakeside	Cyncoed	10/08/2019	Y Cynghorydd Robert Hopkins
Ysgol Uwchradd Llanisien	Llanisien	03/07/2019	Ruth Crowder
Ysgol Gynradd Mount Stuart	Butetown	24/07/2019	Kerry Wilcox
Ysgol Gynradd Pen-y-Bryn	Llanrhymni	27/03/2019	David Simpson
Ysgol Gynradd Pontprennau	Pontprennau / Pentref Llanelirwg	13/08/2019	Joanne Nicholas
Ysgol Gynradd Radnor	Treganna	24/07/2019	Meriel Ansell
Ysgol Gynradd Rhydypenau	Cyncoed	15/05/2019	Y Cynghorydd Bablin Molik
Ysgol Gynradd Trelái	Caerau	12/09/2018	Lois Robinson
Ysgol Feithrin Tremorfa	Sblot	06/02/2018	Hannah Chivers
Ysgol Glan Ceubal	Ystum Taf	26/06/2019	Nicola Stephens
Ysgol Gymraeg Nant Caerau	Caerau	22/03/2019	Rebecca Anderson

2. Dylid cymeradwyo'r penodiadau canlynol i swyddi gwag Awdurdod Lleol yn y dyfodol

Enw'r Ysgol	Ward	Dechrau'r Cyfnod Gwag	Gofynnwyd i ailbenodi
Ysgol Gynradd Adamsdown	Adamsdown	29/10/2019	John Dixon
Ysgol Gynradd Albany	Plasnewydd	23/10/2019	Y Cyng. Mary McGarry
Ysgol Gynradd yr	Pentwyn	23/10/2019	Stephen Hendrickson

Eglwys yng Nghymru yr Holl Seintiau			
Ysgol Gynradd Pentyrch	Pentyrch	23/10/2019	Sarah Maunder
Ysgol Gynradd Stacey 2 swydd wag	Adamsdown	23/09/2019 23/09/2019	John Dixon
Ysgol Gynradd Draenen Pen-Y-Graig	Llanisien	29/10/2019	Mike Imperato

### 83 : PENODIADAU PWYLLGOR

I dderbyn enwebiadau a gwneud penodiadau i swyddi gwag pwyllgor cyfredol fel y nodir yn yr adroddiad ac yn unol â'r dyraniad cymeradwy o seddi a dymuniadau grwpiau gwleidyddol.

**PENDERFYNWYD:** Cytunodd y Cyngor i benodi i'r swyddi gwag ar y Pwyllgor yn unol â'r dyraniad cymeradwy o seddi a dymuniadau grwpiau'r pleidiau fel y nodir ar y daflen ddiwygiedig.

<b>Pwyllgor</b>	<b>Swydd Wag</b>	<b>Grŵp</b>	<b>Enwebiad Wedi Derbyd</b>
Pwyllgor Penodi	3 Aelod	1 x Llafur 1 x Ceidwadwr 1 x Democratiaid Rhyddfrydol	Y Cyng. Joel Williams
Rhianta Corfforaethol Pwyllgor Ymgynghorol	2 swydd wag	1 x Ceidwadwr 1 x Democratiaid Rhyddfrydol	Y Cyngorydd Robert Hopkins
Panel Llywodraethwyr Awdurdod Lleol	1 swydd wag	1 x Democratiaid Rhyddfrydol	Y Cyngorydd Robert Hopkins

### 84 : PENODI CYNRYCHIOLWYR I GYRFF ALLANOL

I dderbyn enwebiadau a phenodi cynrychiolwyr y Cyngor i gyrff allanol statudol ac anstatudol.

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyodd y Cyngor y penodiadau, fel y'u nodir ar y daflen diwygiedig, i'r cyrff canlynol.

Apeliadau	Dim swyddi gwag	Enwebiad
Cyngor Iechyd	1 swydd wag	Y Cyngorydd Goddard



Cymuned Caerdydd a'r Fro		
--------------------------	--	--

85 : CWESTIYNAU YSGRIFENEDIG

Yn unol â Rheol 17 (f) Gweithdrefn y Cyngor cafodd y [Cwestiynau Ysgrifenedig](#) a dderbyniwyd i'w hystyried a derbyn ymateb iddynt, eu cyhoeddi.